



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

## Canllawiau a Fframwaith Canlyniadau Rhaglen Cefnogi Pobl Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i'r Ymgynghoriad

### Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff aelodaeth ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth i 26 o wasanaethau arbenigol annibynnol trydydd sector ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).<sup>1</sup> Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr dan arweiniad anghenion, yn ymateb i rywedd ac sy'n gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac ymarfer cymunedol yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cyngori a chynorthwyo comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth iddynt ddatblygu asesiadau angen a chynlluniau strategol ar gyfer VAWDASV, gan hyrwyddo tystiolaeth am fodelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau niferus rydym ni'n eu cyflenwi i aelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod-wasanaethau â pholisi perthnasol, datblygiadau deddfwriaethol a strategol ac annog cyd-gynhyrchu o ran datblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflenwi ymarfer addawol yn y sector; darparu cefnogaeth gyda materion polisi, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu datblygiadau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Cyfri sydd, er enghraifft yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin a

<sup>1</sup> Ein haelodaeth o 27 o wasanaethau arbenigol trydydd sector VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynw a'i integreiddio: *Aberconwy DAS, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, BAWSO, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Stepping Stones, New Pathways, Merthyr Tudful Diogelach, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grwp Cynefin), Hafan Cymru, Llamau, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Ferched RCT, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli yn flaenorol), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhyw Gogledd Cymru.*



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogfaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

chyflenwi rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota prosiect ymgysylltu â goroeswyr i helpu i wella ymatebion asiantaethau i gam-drin (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu a llywio gwasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau'r cyhoedd a'r gymuned.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru; fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU rydym ni'n gweithio gyda nhw. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau Ansawdd yma: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

### **Crynodeb o'r Argymhellion**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell y dylai'r canllawiau a fframwaith canlyniadau drafft ar gyfer y Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (y Grant):

1. Sicrhau bod comisiynwyr a darparwyr yn deall bod dull o weithredu person-ganolog fel yr amlinellir yn y canllawiau yn gorfod bod ar sail rhywedd a chynnwys cymorth arbenigol i gymunedau BME a'i fod wedi'i integreiddio drwy'r broses comisiynu a chyflenwi a sicrhau bod y dull gweithredu'n cael ei gyllido'n llawn.
2. Sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd yn darparu eglurder bod y Grant yn cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin ac sydd angen manteisio ar gymorth tai i ymadfer o effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol.
3. Cryfhau'r meini prawf cymhwysedd er mwyn sicrhau eu bod yn cydnabod yn glir nad yw meini prawf cyswllt lleol yn briodol ar gyfer gwasanaethau cymorth lloches a gwasanaethau llety eraill VAWDASV.
4. Dileu'r cyfeiriad at gyllid cyhoeddus o'r meini prawf cymhwysedd, i adlewyrchu'r canllawiau blaenorol a sicrhau y bod pobl nad ydynt yn gallu cael cyllid cyhoeddus yn cael parhau i fanteisio ar yr un cymorth ag y gallant ar hyn o bryd dan ddiffiniad mewnfudo cyllid cyhoeddus.
5. Cynnal a chyhoeddi Asesiad o Effaith y canllawiau ar Gydraddoldeb.
6. Gwneud croesyfeiriad gyda'r canllawiau comisiynu VAWDASV sy'n cael eu llunio a chreu cysylltiadau strategol i sicrhau eu bod yn cydweithio.
7. Cynnwys datganiad yn cydnabod nad caffael drwy dendro cystadleuol yw'r unig opsiwn mewn proses gomisiynu a chyfeiriad at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lynu at gyfarwyddeb yr UE ar gaffael.



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

8. Cryfhau cyfeiriadau at y cysylltiadau â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gan gynnwys cydnabod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r canllawiau gyfeirio'n glir at y dyletswyddau ar awdurdodau lleol a'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol yn unol â Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 ac amlinellu y dylid creu cysylltiadau gyda byrddau strategol rhanbarthol VAWDASV wrth iddynt gael eu sefydlu.
9. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell yn gryf y diwygiad i adran 4.7 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r dyletswyddau dan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015 a Strategaeth Genedlaethol VAWDASV. Amlinellir geiriad diwygiedig yn ein hymateb i gwestiwn 8.
10. Ailystyried lleihau'r categorïau canlyniadau oherwydd y posibilrwydd o golli data canlyniadau cymorth arbenigol VAWDASV, yn benodol y categori 'rheoli perthnasoedd' sy'n allweddol yn y sector VAWDASV.
11. Cred Cymorth i Ferched Cymru a'n haelod-wasanaethau VAWDASV arbenigol ei bod yn amhriodol ac yn anniogel gofyn i oroeswyr ddatgelu eu rhifau YG ar gyfer casglu cofnodion Cefnogi Pobl. Byddem yn argymhell er mwyn diogelu menywod a phant sy'n cyrchu gwasanaethau trais yn erbyn menywod y dylid defnyddio system YG ffug, a grëir drwy ddefnyddio cronfa ddata'r darparwyr, a fyddai hefyd yn helpu'r darparwyr i nodi hunaniaeth eu cleient.

## Cwestiynau Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl

1. Ydy'r Canllawiau drafft yn briodol o ran gosod y person yn ganolog ac a yw'r meini prawf cymhwysedd yn glir? Rhowch reswm am eich ateb.

Ydynt	
Nac ydynt	X

### **Dull person-ganolog:**

Drwy gydol y ddogfen canllawiau, ceir cyfeiriadau at sicrhau bod cleientiaid gwasanaethau Cefnogi Pobl wrth galon y rhaglen, sy'n cael ei amlygu fel ymarfer da yn y canllawiau. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn bleidiol i fodel darpariaeth person-ganolog â dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, a arweinir gan anghenion a'i lywio gan drawma ar gyfer cefnogi goroeswyr cam-drin (oedolion a phlant) er mwyn adeiladu gwydnwch a meithrin annibyniaeth a rhyddid rhag cam-drin. Mae ymglymiad canolog gan fenywod sydd wedi profi trais a cham-drin o fewn



Live Fear Free Helpline  
 Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
 Darparu gwybodaeth a chafnogedd cyffwrddol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru

0808 80 10 800



  
 Cymorth i Ferched Cymru  
 Welsh Women's Aid  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

ac ar draws cyflenwi gwasanaethau yn hanfodol i ffurfio datblygiad ymateb y gwasanaethau ac adolygu eu heffaith. Rydym ni'n cydlynu ac yn cefnogi Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n galluogi menywod i arwain ar newid systemau, gwella cymunedau a thrawsnewid gwasanaethau.

Er bod y canllawiau yn galw am ymagwedd berson-ganolog, mae angen hefyd sicrhau'n glir bod comisiynwyr a darparwyr yn deall bod rhaid i hyn fod ar sail rhywedd a chynnwys cymorth arbenigol i gymunedau BME, a'i fod wedi'i integreiddio drwy'r broses comisiynu a chyflenwi a sicrhau bod y dull gweithredu'n cael ei gyllido'n llawn (gweler er enghraifft ymchwil a safonau'n tystio i fanteision gwasanaethau menyw-ganolog a gyflenwir gan wasanaethau menywod ac ar eu cyfer<sup>2</sup>, a manteision cael dewis i gyrchu gwasanaethau arbenigol BME i gefnogi goroeswyr, a arweinir gan gymunedau BME ac ar eu cyfer<sup>3</sup>). Hefyd mae angen i'r canllawiau fynd ymhellach na chydabod yn unig fod defnyddwyr gwasanaeth yn profi amrywiol rwystrau i 'gymryd rhan mewn datblygu, comisiynu, datgomisiynu ac adolygu gwasanaethau cymorth' ond dylai hefyd ddarparu arweiniad ar y gofynion a'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol a'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a gweithio gyda darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cofnodi ystod eang o safbwyntiau i lywio'r ddarpariaeth, yn hytrach na dim ond y rheini y mae'n hawdd eu cael.

**Meini prawf cymhwysedd:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru a'n haelod-wasanaethau'n pryderu nad yw'r meini prawf cymhwysedd yn adlewyrchu'n ddigonol y ddarpariaeth cymorth tai arbenigol VAWDASV yng Nghymru.

1. Dylai'r meini prawf cymhwysedd fod yn glir a yw 'unrhyw berson sydd angen cymorth tai' a nodir yn cwmpasu **plant a phobl ifanc**. Mae ymgynghori rhanbarthol gyda'n haelodau wedi amlygu dulliau anghyson ar draws awdurdodau lleol a'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol ynghylch a yw'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn gallu cwmpasu cymorth i blant a phobl ifanc mewn llochesi a/neu yn y gymuned. Mae darpariaeth arbenigol VAWDASV wedi'i chynllunio i fodloni anghenion goroeswyr sy'n oedolion a'u plant, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth hanfodol yn gysylltiedig â llety gan gynnwys cymorth penodol o fewn lloches ac yn y gymuned i blant a phobl ifanc, sy'n eu galluogi i symud at gael cartrefi sefydlog a diogel, a gwella eu llesiant a'u gwytnwch i liniaru'r profiadau negyddol niferus maent

<sup>2</sup> <http://www.womencentredworking.com/wp-content/uploads/2014/08/WCW-defining-an-approach-document.pdf>

<sup>3</sup> [https://drive.google.com/file/d/0B\\_MKSoEcCvQwY1FRdl82T0laUjg/view](https://drive.google.com/file/d/0B_MKSoEcCvQwY1FRdl82T0laUjg/view)



Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth  
cyfrinachol ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched  
yng Nghymru



wedi'u dioddef. Mae rhai gwasanaethau arbenigol wedi nodi mai ychydig o gyllid os o gwbl maent yn ei dderbyn i gynorthwyo plant goroeswyr sy'n oedolion sydd hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn eu hunain, er eu bod yn cael eu cyllido i ddarparu lloches a/neu gymorth symudol i oroeswyr sy'n oedolion. Fodd bynnag nid yw hwn yn ddull cyson, gyda gwasanaethau arbenigol eraill yn adrodd bod cyllid Cefnogi Pobl yn cwmpasu anghenion goroeswyr sy'n oedolion a'u plant mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae angen i Ganllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl egluro hyn i sicrhau cymorth cyson i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cam-drin ac sydd angen cymorth i ymadfer o effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gallu cael cymorth i'w plant yn aml yw un o anghenion uniongyrchol a phwysicaf goroeswyr sy'n oedolion, a dim ond drwy sicrhau mynediad teg at y cymorth hwn y gallwn ni helpu goroeswyr sy'n oedolion i fanteisio'n llawn ar y cymorth sy'n cael ei gynnig i gynyddu eu diogelwch, lliniaru'r trawma maen nhw a'u plant wedi'i brofi, a'u helpu i ymadfer o'r cam-drin.

2. Mae angen i'r meini prawf cymhwysedd fod yn gliriach **nad yw meini prawf cyswllt lleol yn briodol i wasanaethau cymorth lloches a gwasanaethau llety eraill VAWDASV**. Mae menywod sydd wedi profi cam-drin domestig, yn enwedig rheolaeth gymhellol, mewn perygl o gael eu lladd, a chaiff y teithiau cymhleth, tameidiog maent yn eu cymryd i gyrchu diogelwch a chymorth (sy'n golygu sawl cais i geisio ymatebion cadarnhaol gan y gwasanaethau cyhoeddus) eu gwneud yn fwy tameidiog drwy bolisi ac ymarfer, fel gorfodi 'cyswllt lleol', ac sy'n eu gosod mewn perygl. Hyd nes y cyflawnir ymatebion sector cyhoeddus mwy effeithiol i atal cyflawnwyr cam-drin domestig (sydd ymhell o ddigwydd yn y mwyafrif o ardaloedd) mae'n hanfodol fod y menywod a'r plant hyn sydd angen diogelwch, cymorth ac ailadeiladu eu bywydau'n gallu symud yn gyflym i gyflawni hynny. Mae'r rhwydwaith cenedlaethol o lochesi a darpariaeth symud ymlaen yng Nghymru felly'n adnodd hanfodol i'r goroeswyr niferus sy'n gorfod teithio y tu hwnt i'w hardal leol i ddianc rhag eu partner sy'n cam-drin i sicrhau eu diogelwch eu hunain a'u plant. Mae angen i unrhyw benderfyniadau cyllido mewn perthynas â gwasanaethau lloches gydnabod yr effaith bosibl ar y rhwydwaith o ddarpariaeth ar draws Cymru. Er bod llochesi'n derbyn y Grant drwy drefniadau rhanbarthol a lleol, rhaid cydnabod o fewn y broses asesu anghenion a chomisiynu eu bod yn gweithredu'n gyfunol o fewn rhwydwaith cenedlaethol (ac ar draws y DU) o ddarpariaeth. Dylai hyn fod yn glir o fewn y meini prawf cymhwysedd, a lle ceir cyfeiriad at gyswllt lleol dylai llochesi gael eu heithrio.



Live Fear Free Helpline  
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a trais yn erbyn merched yn Nghymru



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

3. Rydym ni'n gwrthwynebu'n gryf y datganiad yn y canllawiau drafft dan 2.5, bod y Grant yn 'gronfa gyhoeddus' dan reolau mewnfudo. Er y cydnabyddir nad oes cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n atal pobl "**nad oes ganddynt y modd i gael 'cyllid cyhoeddus'**" rhag manteisio ar rai budd-daliadau, tai cymdeithasol a chymorth digartrefedd, nid ydym yn credu bod hyn yn gymwys i'r Grant hwn. Ystyrir 'cymorth tai a digartrefedd' y pennir eu bod yn gronfeydd cyhoeddus dan reolau mewnfudo yn ddyraniad o dai awdurdodau lleol, dyrannu eiddo cymdeithasol dai a ddarperir drwy restr ailgartrefu'r awdurdod lleol yn unig, a chymorth digartrefedd statudol.<sup>4</sup> Amlinellir hyn ymhellach yn Neddff Tai (Cymru) 2014 nad yw'n cyfeirio at gyllid Cefnogi Pobl.

Mae'r datganiad yn 2.5 yn y canllawiau drafft yn newid clir o'r canllawiau blaenorol nad ydynt yn nodi hyn. Hyd yma, yng Nghymru, mae menywod nad oes ganddynt fodd i gael 'cyllid cyhoeddus' wedi gallu manteisio ar gymorth a gyllid gan y Grant pan fyddai'r gwasanaethau lloches yn talu eu costau'n ymwneud â llety drwy ffyrdd eraill ar wahân i fudd-dal tai. Mae angen i'r canllawiau atgyfnerthu hyn a chydabod bod angen i'r holl oroeswyr a phlant sy'n profi cam-drin domestig allu manteisio ar gymorth yn ymwneud â thai a ddarperir dan y Grant, beth bynnag yw eu statws mewnfudo a mynediad dilynol i ddiffiniadau Llywodraeth y DU o 'gyllid cyhoeddus'. Mae hyn yn gyson â Strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru sy'n nodi: "*Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddiodefwrwr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd*" Dylai'r canllawiau hefyd gydnabod bod talu costau lletya menywod nad oes ganddynt y modd i gael 'cyllid cyhoeddus' yn gallu bod yn faich ariannol ar y gwasanaethau a gyllid, yn enwedig darpariaeth arbenigol BME. Gall hyn effeithio ar gynladwyedd y ddarpariaeth a gyllid gan y Grant. Mae angen i'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol gynnig cymorth i awdurdodau lleol a darparwyr er mwyn gallu gwneud cysylltiadau gyda gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod prosesau amgen yn weithredol i dalu costau byw/llety ar gyfer cyrchu diogelwch a gwarchodaeth i oroeswyr a'u plant heb fodd i gael 'cyllid cyhoeddus' dan y Grant. Dylai hyn gyd-fynd â dyletswyddau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er enghraifft, wrth gomisiynu'r gwasanaethau a gyllid gan y Grant dylid sicrhau cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i gytuno ar gyllido menywod a phlant sydd wedi profi cam-drin domestig ac sydd heb fodd i gael cyllid cyhoeddus, drwy gronfeydd amgen.

<sup>4</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/518624/Public\\_funds\\_v13.0.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/518624/Public_funds_v13.0.pdf)

**2 Ydy'r Canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ar draws datblygu a chomisiynu gwasanaeth? Os nad ydynt, pam lai?**

Ydynt	
Nac ydynt	X

Mae aelodau o Cymorth i Ferched Cymru wedi codi gyda ni bryderon nad yw'n glir ble mae'r asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r canllawiau hyn.

Yn benodol, soniodd aelodau mewn ymgynghoriad gyda Cymorth i Ferched Cymru nad oes dim tystiolaeth o sut mae'r canllawiau'n ymdrin ag anghenion cymorth cymunedau Du a lleiafrifol ethnig (BME). Yng Nghymru roedd 36% o'r rheini oedd yn cyrchu cymorth lloches yn 2015-16 uniaethu fel "nid Gwyn Prydeinig". Mae angen i'r canllawiau gydnabod yr angen am gomisiynu llochesi i fenywod BME a'u rhedeg ganddynt yn rhanbarthol, gyda'r gallu i ddarparu cymorth penodol i oroeswyr BME a'u plant sy'n profi anghydraddoldebau niferus, trawsadrannol; darparu 'mannau diogel' ble gall menywod BME eu mynegi eu hunain; a hefyd gweithredu dull cyfannol sy'n ymdrin â chamwahaniaethu ac ymylu systematig.

Nid yw'n glir sut bydd y pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol yn gweithredu i sicrhau y bydd y Grant yn ymatebol i ddarpariaeth benodol sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac annog ymagwedd ryngadrannol gan gomisiynwyr. Bydd gwneud hyn yn lliniaru'r potensial ar gyfer effaith niweidiol ar fywydau menywod a merched ac yn llywio penderfyniadau'n well o ran y math o wasanaethau a gyllidir ac y gall menywod eu cyrchu.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell y dylai'r canllawiau gynnwys cyfeiriad penodol at yr angen am gymorth yn gysylltiedig â thai sy'n ymateb yn ôl rhywedd a diwylliant, pwysigrwydd darpariaeth arbenigol, benodol 'gan ac ar gyfer' menywod a chymunedau BME, a bod cynlluniau comisiynu'n sicrhau bod materion fel rhyw, ethnigrwydd, ffydd, rhywioldeb, anabled ac oed yn cael eu trin. Yn gyffredinol awgrymodd ein haelodau bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y canllawiau'n sicrhau bod comisiynwyr yn ymdrin ag anghenion pawb, ond yn benodol y grwpiau hynny sydd wedi'u hymylu, eu heithrio ac y gwahaniaethir yn eu herbyn. Drwy wneud hyn, bydd modd cyflawni amcan Llywodraeth Cymru i atal trais yn erbyn menywod, sydd ei hun yn achos ac yn ganlyniad anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion.

**3 Ydy'r Canllawiau drafft yn darparu fframwaith comisiynu clir i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl? Rhwch reswm am eich ateb.**



Live Fear Free Helpline  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
 0808 80 10 800



Cymorth i Ferched Cymru  
 Welsh Women's Aid  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Ydynt	
Nac ydynt	X

Y Rhaglen Cefnogi Pobl yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid i'r sector VAWDASV arbenigol yng Nghymru. Mae'r sector arbenigol yn darparu cymorth sy'n newid ac yn achub bywydau i oroeswyr trais yn erbyn menywod yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru. Mae'n hanfodol felly fod y fframwaith comisiynu'n effeithiol er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth hanfodol hon mewn modd cynaliadwy.

### Canllawiau comisiynu:

Mae Cymorth i Ferched Cymru a gwasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru wedi cyfrannu at lunio'r pecyn cymorth comisiynu a ysgrifennwyd ac a gyhoeddwyd gan Ffederasiwn Banc Lloyds gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Byddem yn argymhell bod hwn yn cael ei hyrwyddo i arweinwyr Cefnogi Pobl a chydlynwyr datblygu rhanbarthol i lywio comisiynu a chaffael gwasanaethau VAWDASV, gan gynnwys cymorth lloches. (Mae'r canllawiau i'w gweld yma: [http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/VAWDASV-Toolkit\\_Cymru\\_web.pdf](http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/VAWDASV-Toolkit_Cymru_web.pdf))

Ymhellach mae Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau comisiynu VAWDASV statudol. Bydd angen i gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol lynu at y rhain fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015. Bydd hyn yn effeithio ar gomisiynu darpariaeth VAWDASV Cefnogi Pobl a dylid cyfeirio ato yn fframwaith comisiynu'r Grant. Mae angen i'r fframwaith comisiynu gynnwys cyfarwyddyd penodol i bwyllgorau cydweithredol rhanbarthol ac awdurdodau lleol ddilyn y pecyn cymorth comisiynu VAWDASV a'r canllawiau statudol cysylltiedig pan gânt eu cyhoeddi. Mae angen i dimau Cefnogi Pobl a VAWDASV yn Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch sut y bydd y ddwy ddogfen canllaw yn cydweithio a darparu cyfarwyddyd yn y ddwy ddogfen o ran sut y dylai pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol ac awdurdodau lleol gydymffurfio â'r ddwy.

### Cydweithio ar draws Cefnogi Pobl a VAWDASV:

Mae canllawiau'r Grant yn awgrymu cydweithio ar draws themâu strategol o ran comisiynu, ond mae'n methu â chydabod VAWDASV fel un o'r themâu strategol. Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn datblygu eu strategaethau a'u cynlluniau comisiynu VAWDASV a bydd yn hanfodol fod cynlluniau comisiynu'r Grant yn cael eu hintegreiddio yn y rhain. Fel uchod, bydd gan y pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol ac awdurdodau lleol ran i'w chwarae i sicrhau bod gweithrediad canllawiau Cefnogi Pobl a chanllawiau comisiynu VAWDASV yn cyd-fynd. Dylai fod rôl i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus oruchwylio hyn a darparu rhywfaint o lywodraethu i sicrhau cydweithio ar draws cylchoedd gorchwyl.





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth  
cyfrinachol ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a trais yn erbyn merched  
yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Ymhellach i'r uchod, mae angen gwneud cysylltiadau â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu model cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol VAWDASV yn y trydydd sector, fel y nodwyd yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2016-2021. Bydd y Rhaglen Cefnogi Pobl, fel prif ffynhonnell y sector cam-drin domestig yn hanfodol ar gyfer datblygu hyn ac felly mae'n hanfodol fod y canllawiau a ddatblygir ar draws meysydd Cefnogi Pobl a VAWDASV yn ategu ei gilydd.

### **Arferion Caffael:**

Mae ymgynghori gydag aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi amlygu arferion caffael anghyson ar draws awdurdodau lleol. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n croesawu'r cyfeiriad at Gynllunydd Llwybr Caffael Gwerth Cymru a'r fframwaith caffael deddfwriaethol. Byddem yn awgrymu bod angen i dimau caffael mewn awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn nosbarthiad y canllawiau hyn a'u bod yn ymwybodol o gwmpas llawn y gwasanaethau a gynhwysir.

### **Canfod angen cudd:**

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi codi rhai pryderon fod y canllawiau comisiynu yn cyfeirio'n unig at bobl neu ddarparwyr 'sydd wedi defnyddio gwasanaethau/cyllid Cefnogi Pobl'. Cyfyngiad hyn yw nad yw'n ceisio canfod anghenion cudd neu heb eu cefnogi ac felly ehangu cyrhaeddiad Cefnogi Pobl, a ddylai fod yn uchelgeisiol yn ei nod i gyrraedd ymhellach nag a wnaeth yn flaenorol, er mwyn cysylltu â darpar gleientiaid nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni ar hyn o bryd.

### **Tendro ac Ail-dendro:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru'n cydnabod bod adran 4.9.9 'Tendro ac Ail-dendro' wedi'i hamlygu fel un sydd angen ei hail-eirio yn dilyn trafodaethau cyfranogwyr yn y digwyddiad ymgynghori yn Llandrindod ar 7 Gorffennaf. Byddem yn cytuno nad yw'n glir ar hyn o bryd pryd y dylid cynnal adolygiadau strategol ar wasanaethau cyfredol a phryd y cynhelir ymarferion ail-dendro. Dylid seilio unrhyw benderfyniad i ail-dendro neu ailfodelu darpariaeth ar adolygiad cadarn ac asesiad o anghenion gyda chyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth. Ni ddylid ail-dendro er mwyn ail-dendro'n unig ond dylai ganolbwyntio ymdrin ag anghenion a datblygu cymorth pellach i fodloni'r angen hwnnw. Rhaid hefyd ystyried sut y byddai darpariaeth gyfredol neu newydd yn cyd-fynd â model ehangach o ddarpariaeth a llwybrau cyfeirio.

Dylai'r canllawiau gydnabod nad caffael drwy dendro cystadleuol yw'r unig opsiwn mewn proses gomisiynu. Cyfeiriad at gyfarwyddeb yr UE ar drothwy Caffael ar gyfer y drefn cyffyrddiad ysgafn newydd €750,000 sy'n golygu nad oes angen i gontractau sy'n llai na hyn fynd drwy broses dendro gystadleuol ac y gall comisiynwyr fod yn greadigol yn eu hagweddau gan gynnwys defnyddio cyllid grant os ydynt yn dymuno.



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Dylai'r canllawiau gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru ar gaffael yn gryf, sef:

*“Nod y rheolau newydd yw helpu comisiynwyr strategol i gryfhau ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth. Gall awdurdodau contractio ystyried elfennau pwysig drwy feini prawf dyfarnu (nid pris yn unig) fel ansawdd, cysondeb, hygyrchedd, fforddiadwyedd, argaeledd a chyflawnder y gwasanaethau; anghenion penodol gwahanol gategorïau o ddefnyddwyr, gan gynnwys grwpiau difreintiedig ac agored i niwed; ymglymiad a grymuso defnyddwyr; ac arloesi.’*

*‘Dylai hyn helpu awdurdodau i sicrhau gwasanaethau'n unol ag anghenion lleol a sicrhau cynladwyedd y gwasanaeth sy'n hanfodol, gydag amodau perfformio posibl y contract yn cynnwys ystyriaethau economaidd, arloesi, amgylcheddol, cymdeithasol neu'n gysylltiedig â chyflogaeth (Rheoliad 70).’<sup>5</sup>*

**4 Ydy'r canllawiau drafft yn ddigon hyblyg i annog arloesi a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r gyllideb Cefnogi Pobl? Rhowch reswm am eich ateb.**

<b>Ydynt</b>	
<b>Nac ydynt</b>	<b>X</b>

Dylai'r dull person-ganolog a amlinellwyd uchod lywio arloesi, gan sicrhau bod yr arloesi'n seiliedig ar wella darpariaeth a bodloni angen mewn ffyrdd effeithiol newydd. Fodd bynnag ni ddylid blaenoriaethu arloesi o flaen cyllido'r ddarpariaeth cymorth effeithiol bresennol sydd yn amlwg yn bodloni'r canlyniadau dymunol a'r anghenion. Mae gan Cymorth i Ferched Cymru'r sylwadau canlynol ar y dulliau newydd o weithio a awgrymir yn y canllawiau:

**Lleihau'r angen am gynlluniau cymorth ar gyfer ymyriadau tymor byr:**  
 Gyda golwg ar y cynllun i leihau'r angen am gynlluniau cymorth ar gyfer ymyriadau tymor byr iawn, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r newid hwn yn arwain at ddiffyg asesu llwyr ac nad yw cyfleoedd ar gyfer datgelu VAWDASV, o fewn y sector arbenigol ac yn y sector tai ehangach, yn cael eu lleihau. Mae'n hanfodol hyd yn oed gydag ymyrraeth tymor byr iawn bod anghenion yn cael eu hasesu a bod cyfle i drais a cham-drin gael eu canfod er mwyn sicrhau bod y cynnig priodol o gymorth, arweiniad ac arwyddo at wasanaethau arbenigol VAWDASV yn digwydd. Byddai hyn yn unol â fframwaith Gofyn a Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer VAWDASV.

**Gwasanaethau a chonsortia rhanbarthol:**

<sup>5</sup> <http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/150226publiccontractsregulations2015.pdf>



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a ffurfiad yn erbyn merched yng Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi codi pryderon am y canllawiau ar ddatblygu gwasanaethau a consortia rhanbarthol oherwydd gallai hyn fod yn risg i arbenigedd mewn sefydliadau llai o faint. Rhaid cydnabod hefyd y gall adeiladu a rheoli consortia gael effaith sylweddol ar gapasiti cyrff llai o faint. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi bod yn rhedeg prosiect i adeiladu capasiti i gefnogi gwasanaethau cam-drin ac mae datblygu consortia wedi bod yn angen allweddol a ddynodwyd yn y prosiect hwn. Os yw comisiynwyr yn mynd i annog consortia o fewn proses gomisiynu mae angen iddynt sicrhau y bydd yn diogelu gwasanaethau arbenigol llai o faint a'u bod yn caniatáu digon o amser ac adnoddau i'r holl ddarparwyr gyfranogi'n gyfartal.

**5 Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (e.e. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol)? Os na, eglurwch pam.**

<b>Ydym</b>	<b>X</b>
<b>Nac ydym</b>	

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru yn cytuno gyda'r trefniadau ac yn gobeithio y bydd pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol yn ceisio cynrychioli'r holl grwpiau o bobl gan gynnwys y rhai na chânt eu cyllido ar hyn o bryd gan Cefnogi Pobl.

Byddem yn argymhell yn 3.8.3, sy'n amlinellu bod 'cysylltiadau ffurfiol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant, yn ogystal â Byrddau Gwasanaeth Lleol, yn weithredol ac yn sefydlu strwythur llywodraethu a threfniadau adrodd cadarn i sicrhau bod gwaith y pwyllgor cydweithredol rhanbarthol yn cyd-fynd â'r comisiynu rhanbarthol ehangach', y dylid ychwanegu cyfeiriad bod rhaid i'r llwyfannau hyn hefyd ddeall eu dyletswyddau yn unol â byrddau strategol VAWDASV lle cânt eu sefydlu.

**6 Ydy'r cysylltiad rhwng comisiynu Cefnogi Pobl a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn glir? Rhowch reswm am eich ateb.**

<b>Ydy</b>	
<b>Nac ydy</b>	<b>X</b>

Er y ceir cyfeiriadau achlysurol at ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, yn amlach na pheidio mae'n gyfeiriad at ddeddfwriaeth a restrir yn adran 1.6.1, yn hytrach nag yn esboniad o'r ffordd mae'r ddeddfwriaeth yn cysylltu â'r Rhaglen Cefnogi Pobl.



**Live Fear Free Helpline**  
 Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
 Darparu gwybodaeth a chafnogfaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru

**0808 80 10 800**



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Adran 1.6.1 yw'r unig ran o'r canllawiau sy'n gwneud unrhyw gyfeiriad at VAWDASV (Cymru) 2015. Mae angen adlewyrchu'r Ddeddf yn gliriach drwy'r canllawiau. Ceir rhai cyfeiriadau at gam-drin domestig, dylid diweddarau'r termau hyn yn unol â Deddf VAWDASV a dylid cyfeirio ac ystyried perthnasedd pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid yw darpariaeth lloches yn darparu ar gyfer goroeswyr sydd wedi profi cam-drin domestig yn unig ond mewn rhai ardaloedd mae hefyd yn cynnwys cymorth i oroeswyr mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Er enghraifft, gall fod angen i oroeswr trais rhywiol gael cymorth llety os nad yw'n teimlo'n ddiogel yn ei chartref bellach. Mae rhai o'n haelod-wasanaethau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod sy'n profi trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod wedi crybwyll yr angen i'r Grant gynnwys costau'r cymorth hwn. Mae hyn yn unol â dyletswyddau'r sector cyhoeddus o fewn Deddf VAWDASV (Cymru) 2015. Mewn rhai ardaloedd mae'r angen hwn am hyblygrwydd wedi'i gydnabod gan yr awdurdod lleol sy'n cyllido, ac mae angen i'r canllawiau sicrhau bod y gydnabyddiaeth hon i'w dyletswyddau ehangach yn gyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

**7 Ydy swyddogaeth y rhanddeiliaid yn glir? Os nad yw, pam?**

<b>Ydy</b>	X
<b>Nad ydy</b>	

Mae'r canllawiau'n amlinellu swyddogaeth y gwahanol randdeiliaid yn glir yn ogystal ag ymrwymiad clir ar i'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol sefydlu trefniadau ymgynghori gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a restrir. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell bod hyn yn cynnwys ymgysylltu â strwythurau rhanbarthol a lleol newydd sy'n cael eu datblygu o ran VAWDASV, gan gynnwys sicrhau cysylltiadau cryf gyda byrddau strategol VAWDASV.

Rydym ni'n croesawu'r cynllun i gyhoeddi dolenni at dudalennau gwe'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol i alluogi rhanddeiliaid i gyrchu gwybodaeth a chaniatáu tryloywder cynlluniau a chyfarfodydd y pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol. Byddem yn argymhell bod y canllawiau'n amlinellu y dylai pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol gyhoeddi trefniadau ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar eu tudalennau gwe a sicrhau bod y rhain yn cael eu cyhoeddi'n eang.

**8 Oes rhannau o'r canllawiau drafft y gellid eu cryfhau neu eu gwneud yn haws eu defnyddio? Rhowch reswm am eich ateb.**

<b>Oes</b>	X
<b>Nac oes</b>	



Live Fear Free Helpline  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a trais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Fel y nodwyd ynghynt byddem yn argymhell cryfhau'r cysylltiadau â Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol. Yn benodol byddai Cymorth i Ferched Cymru'n argymhell yn gryf y diwygiadau canlynol i adran 4.7 i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r dyletswyddau dan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015 a Strategaeth Genedlaethol VAWDASV. O bryder penodol mae'r cyfeiriad at wasanaethau llety a chymorth arall ar gyfer cam-drin domestig fel opsiynau costus a'r awgrym y gellid caledu targedau lle bo'n bosibl er mwyn lleihau'r galw am y rhain. Mae hyn nid yn unig yn anghywir ond hefyd yn peryglu bywydau. Mae goroeswyr sy'n dewis mynd i lochesi'n gwneud hynny am mai dyna'r lle mwyaf diogel iddyn nhw a'u plant a'i fod yn cynnig pecyn o gymorth dan arweiniad anghenion gan gynnwys eiriolaeth, cyngor, gwaith grŵp a gwaith gyda phlant sy'n eu galluogi i gyflawni canlyniadau tymor hir, sy'n profi'n gost effeithiol yn y tymor hir. Nid yw goroeswyr yn mynd i loches oherwydd diffyg caledu targedau cymorth ac ni ellir ystyried caledu targedau fel dewis amgen i ddarpariaeth lloches. Canfu gwerthusiad Cefnogi Pobl annibynnol yn 2009 fod gwasanaethau cymorth lloches a symudol i oroeswyr cam-drin domestig yn dod ag arbediad i'r wladwriaeth o £19,635 i bob goroeswr sy'n derbyn gwasanaeth cymorth cam-drin domestig penodol drwy loches neu gymorth symudol.<sup>6</sup>

Mewn achosion ble mae caledu targedau wedi'i ddefnyddio'n effeithiol fe'i gwelir yn offeryn ychwanegol i fenywod i leihau effaith cam-drin ar ôl gwahanu a galluogi'r menywod i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus i adrodd am gam-drin. Yn aml gellir ei ddarparu i fenywod cyn neu ar ôl cyrchu cymorth lloches. Dylid ei ddarparu bob amser ochr yn ochr â chymorth arall gan gynnwys eiriolaeth. Ni fydd caledu targedau o reidrwydd yn lleihau defnydd, ac felly'r angen am gyllid, ar gyfer mathau eraill o gymorth. Yr arbediad cost y gall caledu targedau ei gyflenwi yw lleihau erledigaeth fynych ac ymyrraeth gynharach oherwydd mwy o hyder i adrodd am gam-drin domestig.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell diwygiad i adran 4.7.2:

**'Trais yn erbyn menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)'**

- *Ydy'r gwasanaethau a gyllidir gan y Grant wedi'u hintegreiddio gyda darpariaeth VAWDASV arall a blaenoriaethau strategaeth VAWDASV? e.e. rhaglenni i gyflawnwyr*
- *Ydy'r gwasanaethau a gyllidir gan y Grant yn gweithio mewn partneriaeth gyda thimau Opsiynau Tai awdurdodau lleol i atal digartrefedd a rhan o'r model ehangach ar gyfer ymyrraeth gynnar*

<sup>6</sup> Y Comisiwn Archwilio (2009) *Supporting People Review: Report for the Communities and Local Government Department*, Comisiwn Archwilio.



Live Fear Free Helpline  
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
Darparu gwybodaeth a chafnogfaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

*ac atal y trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?*

- *Ydy awdurdodau lleol a'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol yn mabwysiadu egwyddorion comisiynu integredig gyda phartneriaid ehangach yn unol â gwaith Llywodraeth Cymru ar fodel ar gyfer cyllid cynaliadwy a chanllawiau comisiynu statudol VAWDASV?<sup>7</sup>*

**9 Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y gallai diwygio'r canllawiau ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio diwygiad o'r fath neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV eisoes yn cael eu darparu mewn sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n awgrymu y dylid gwneud y defnydd mwyaf o'r Gymraeg lle bo'n bosibl. Dylid cynnal gwaith gyda goroeswyr yn Gymraeg a Saesneg lle bo'n bosibl, ac wrth gomisiynu gwasanaethau dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n Gymraeg lle ceir tystiolaeth o'r angen am hyn.

Rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill i fenywod sydd â'r Saesneg neu'r Gymraeg yn ail iaith, yn enwedig menywod sydd newydd fewnfudo.

**10 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y canllawiau drafft?**

<sup>7</sup> I'w cyhoeddi hydref 2017 – dylent hefyd ystyried y canllaw ymarfer da a luniwyd gan Sefydliad Banc Lloyds mewn cydweithrediad â Cymorth i Ferched Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru



Live Fear Free Helpline  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

## CWESTIYNAU YMGYNGHORIAD CANLYNIADAU CEFNOGI POBL

### Beth ydym ni'n cynnig ei newid?

1. Ydych chi'n cytuno mai'r canlyniadau a'r dyheadau cleient arfaethedig yw'r rhai cywir (Tabl 1 Fframwaith Canlyniadau Arfaethedig)?

Ydym	<input type="checkbox"/>
Nac ydym	<input checked="" type="checkbox"/>

### Rhowch reswm am eich ateb.

Mae angen i ganlyniadau Cefnogi Pobl gysylltu â'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-21<sup>8</sup> a Chanlyniadau a Dangosyddion Cenedlaethol VAWDASV sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r fframwaith canlyniadau yn uchelgeisiol iawn wrth geisio gosod anghenion holl ddefnyddwyr Cefnogi Pobl drwy'r 7 canlyniad sy'n 'fwyaf perthnasol' i'r 60,000 o unigolion sy'n derbyn cymorth Cefnogi Pobl. Byddai Cymorth i Ferched Cymru'n annog nad yw dull un datrysiad sy'n addas i bawb yn briodol gan y gellid colli data gwerthfawr o'r agenda VAWDASV. Ymhellach nid yw'r 7 canlyniad arfaethedig yn adlewyrchu ein harbenigeddau yn y sector VAWDASV a gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol BME yn benodol. Gan fod y data hwn yn debygol o lywio asesiadau angen ac ail-gomisiynu gwasanaethau mae'n hanfodol ei fod yn cael ei gofnodi er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gan gydnabod effaith ac ansawdd darpariaeth arbenigol.

Er ein bod yn deall bod canlyniadau'r fframwaith wedi'i lleihau i'w canoli fwy ar nodau'r rhaglen, atal digartrefedd a blaenoriaethau'r Llywodraeth, barn Cymorth i Ferched Cymru a'n haelod-wasanaethau yw bod rhai o'r canlyniadau a ollyngwyd yn hynod o berthnasol i oroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod a gyllidir gan y Grant ac na fyddant o reidrwydd yn cael eu cofnodi yn unman arall yn y fframwaith. Mae gwaith VAWDASV ei hun yn flaenoriaeth i'r llywodraeth ac mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn ffordd sylweddol o gyflawni nodau'r ddeddfwriaeth uchelgeisiol.

Gallai casglu data mwy cadarn (yn hytrach na lleihau casglu data mewn prosiectau a gyllidir gan Cefnogi Pobl) fod yn eithriadol o werthfawr tra bo gweithrediad Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn ei gyfnod cynnar.

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-21', *Llywodraeth Cymru*, 2016, <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf>, [accessed 18/07/17].



Live Fear Free Helpline  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Rydym yn deall na fydd casglu canlyniadau'n gysylltiedig â VAWDASV yn berthnasol ar draws Cefnogi Pobl yn llwyr ond fel y dywed paragraff 13, 'Bydd dim ond disgwyl i bobl ddethol canlyniadau sy'n berthnasol iddynt hwy' ac mae Cymorth i Ferched Cymru yn gofyn am gael cynnwys pob maes canlyniadau perthnasol fel yr amlygir isod, gan fod modd i'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gasglu'r rhain a'u casglu gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill pan bennir fod hynny'n briodol yn unig.

Mae'r pedwar canlyniad y mae'r broses ymgynghori yn cynnig eu gollwng (**cyfrannu at ddiogelwch a llesiant eu hunain ac eraill; rheoli perthnasoedd; teimlo'n rhan o'r gymuned; byw bywyd iachus a gweithredol**) yn berthnasol i'r cymorth y mae gwasanaethau VAWDASV yn ei ddarparu. Drwy dynnu'r rhain, nid yw'n glir sut y bydd gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn gallu cofnodi cynnydd/llwyddiant taith eu cleientiaid o adfer ar ôl cam-drin i'r un graddau ag yn y system bresennol. Credwn nad yw'n glir a oes modd cofnodi'r canlyniadau coll yn unrhyw le arall yn y 7 canlyniad sydd ar ôl yn y drafft hwn.

Rydym ni'n gwerthfawrogi y gellid cofnodi rhai elfennau o **'fyw bywyd iach a gweithredol'** o hyd dan yr adrannau 'iach yn gorfforol' ac 'iach yn feddyliol' arfaethedig, er bod y canlyniadau'n debygol o gael eu gwanhau gan y lens symudol. O ran **'teimlo'n rhan o'r gymuned'**, gellir cofnodi rhai elfennau o hyn dan y canlyniadau addysg/dysgu a chyflogaeth/gwaith gwirfoddol, ond unwaith eto, mae llawer o fanylion arwyddocaol yn cael eu colli - gyda llawer o'r rhain yn ganlyniadau 'meddal' sy'n hynod o arwyddocaol i gynnydd ac adferiad o'r effeithiau dinistriol y mae goreswyr VAWDASV yn eu hwynebu fel mater o drefn.

Nid ydym yn credu ei bod yn ddigon lleihau canlyniad **'Cyfrannu at ddiogelwch a llesiant eu hunain ac eraill'** yn y categori 'Pobl yn teimlo'n ddiogel - Rwy'n teimlo'n ddiogel', gan nad yw hyn yn mynd digon pell i sicrhau bod canlyniadau digonol yn cael eu casglu. Mae'r dyhead neu'r canfyddiad 'Rwy'n teimlo'n ddiogel' pan fydd goreswr yn cyrchu lloches yn orsymleiddio enfawr o realiti pobl sy'n cyrchu cymorth argyfwng sy'n achub bywydau. Bydd yr adeg pan gaiff y cwestiwn ei ofyn yn dylanwadu'n fawr ar yr ateb a'r lefel o ddiogelwch a deimlir, ond hefyd ar goll o'r canlyniadau mae cwestiynau ehangach am eraill, fel y plant a allai fod yn y lloches gyda'r unigolyn neu beidio. Yn hytrach mae'r canlyniadau presennol yn cynnig golwg fwy manwl ar gynnydd goreswyr sy'n cyrchu'r cymorth hwn. Unwaith eto mae 'Mae gen i berthnasoedd cadarnhaol gyda ffrindiau a theulu' yn or syml o ran unrhyw senario trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan ei bod yn debygol iawn y byddai cyflawnwr/wyr unigol neu niferus yn cael eu pennu naill ai'n 'deulu' neu'n 'ffrindiau'.





**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a trais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Y pryder mwyaf serch hynny yw absenoldeb y categori **'rheoli perthnasoedd'**, sy'n allweddol i'r sector VAWDASV. Er enghraifft, roedd yr hen ganlyniad yn mesur cynnydd o ran hyder a gwelliannau yn y berthynas rhwng goroeswyr a'u plant. Yn y canlyniadau newydd caiff perthnasoedd cadarnhaol eu cynnwys dan 'pobl yn teimlo'n ddiogel', nad yw, ym marn Cymorth i Ferched Cymru, yn cydweddu gan nad yw'n cynnwys perthnasoedd plant/rhieni. Yn yr un modd, mae'n gyffredin fod menywod sy'n cyrchu lloches wedi profi blynyddoedd o ynysu fel rhan o'r cam-drin, felly mae cynnydd o ran hyder a gwelliannau mewn perthnasoedd yn ddangosyddion sylweddol o gynnydd drwy'r gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl. Er y gellid cofnodi rhai elfennau yn yr adran 'pobl yn teimlo'n ddiogel', ni ellir dweud bod teimlo'n ddiogel a chael perthnasoedd cadarnhaol yn union yr un peth.

Rydym ni'n teimlo hefyd bod angen rhagor o ganllawiau yn ymwneud â'r categori 'pobl yn teimlo'n ddiogel' gan fod dryswch bob amser o ran pryd y dylid mesur hyn. Mae'n werth ystyried hefyd a ddylai'r hyn a gaiff ei fesur fod yn gynnydd o waelodlin, er mwyn iddo ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn achos wrth achos.

**2. Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth sylfaenol a gynigir e.e. mae gennyf swydd, rwyf i mewn dysgu/addysg, mae fy llety'n debygol o fod yn sefydlog am o leiaf 6 mis (gyda chymorth)? Oes unrhyw wybodaeth sylfaenol arall y dylid ei chasglu (Paragraff 14)?**

<b>Ydym</b>	
<b>Nac ydym</b>	<b>X</b>

**Rhowch reswm am eich ateb.**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cytuno gyda chofnodi gwybodaeth sylfaenol ar ddechrau cyfnod y cleient yn cyrchu gwasanaethau, er y dylid nodi nad yw gwybodaeth sylfaenol fel 'mae fy llety'n debygol o fod yn sefydlog am o leiaf 6 mis' yn gymwys i'r mwyafrif o oroeswyr sy'n byw mewn llety lloches oherwydd bod hyn fel arfer yn cael ei gyrchu ar adeg o argyfwng neu ar sail tymor byr neu dymor byr iawn.

Nid ydym yn credu bod yr wybodaeth sylfaenol yn ystyrion yn gyffredinol a byddem yn dadlau nad oes modd ei chymhwyso ar draws pob grŵp cleient. Er enghraifft, amlygodd ein haelodau bod dychwelyd canlyniadau cadarnhaol i'r cwestiynau arfaethedig yn uchelgeisiol iawn, er enghraifft, i oroeswyr BME. Cynigiodd aelodau y byddai seiliau penodol ar gyfer grwpiau arbennig fel goroeswyr BME yn fwy priodol ac ystyrion.



Live Fear  
Free Helpline

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth  
cyfrinachol ynghylch trais domestig  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched  
yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai pobl sy'n cyrchu'r gwasanaethau adrodd eu hunain am eu llwyddiant o ran canlyniadau i ddarparwyr, a'i adrodd ar adeg yr adolygiad (Paragraff 12)?

### Cytuno'n Gryf

#### Cytuno

#### Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

#### Anghytuno

#### Anghytuno'n gryf

Rhowch reswm am eich ateb.

Mae Cymorth i Ferched Cymru a'n haelodau yn cytuno y dylai pobl sy'n cyrchu'r gwasanaethau adrodd eu hunain am eu llwyddiant o ran canlyniadau ond y dylid gwneud hynny'n briodol. Er enghraifft rydym ni'n cefnogi hyn pe bai'n cael ei wneud yn bersonol. Fodd bynnag, os caiff ei wneud o bell, er enghraifft dros y ffôn neu gyfrifiadur, byddai angen mwy o wybodaeth.

Rydym ni hefyd yn credu y dylid defnyddio Sêr Canlyniadau ac rydym ni wedi cynnwys enghraifft o Seren Grymuso<sup>9</sup>, a ddefnyddir eisoes mewn rhai gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gofnodi canlyniadau mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda goroeswyr.

## Cyfeirnodau Unigryw

4. Ydych chi'n cytuno gyda defnyddio'r rhif Yswiriant Gwladol fel dynodwr unigryw (Paragraff 6-8)?

Ydym	
Nac ydym	X

Rhowch reswm am eich ateb gan gynnwys awgrym am ddynodwr unigryw amgen os ydych chi'n anghytuno.

Mae'r canllawiau'n galw ar gomisiynwyr i fod yn ofalus am agwedd 'yr un peth i bawb' (tud 10) a byddai Cymorth i Ferched Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i gymhwyso hyn i'r newidiadau arfaethedig i gyfeirnodau unigryw, drwy ddefnyddio rhifau Yswiriant Gwladol pan fydd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny yn unig.

Mae Cefnogi Pobl yn cyllido darpariaethau sy'n newid bywydau i 60,000 o bobl yng Nghymru – gofynnwn i chi ystyried goblygiadau cynnig

<sup>9</sup> Gweler <http://www.outcomesstar.org.uk/using-the-star/see-the-stars/empowerment-star/>



Live Fear Free Helpline  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
 0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a ffurto yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

datrysiad 'yr un peth i bawb' pan fo gan bob un o'r 60,000 unigolyn sy'n cyrchu cymorth fywydau a ffactorau risg mor amrywiol. Yr amser mwyaf peryglus yn siwrnai goroeswr VAWDASV fwy na thebyg yw'r foment mae'n cyrchu darpariaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl - lle mae'r risg o ladd iddi hi a'i phlant wrth law'r cyflawnwr yn fwy nag erioed.

Er efallai nad oes gan gyrff eraill yn y sector tai unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio rhifau YG fel cyfeirnodau unigryw, cred Cymorth i Ferched Cymru a'n gwasanaethau arbenigol VAWDASV ei bod yn amhriodol ac yn anniogel gofyn i oroeswyr ddatgelu eu rhifau YG i'w casglu ar gyfer cofnodion Cefnogi Pobl.

Mae ein pryderon fel a ganlyn:

**1. Perygl o gael eu hadnabod gan gyflawnwyr neu deulu/ffrindiau sydd â mynediad at y gronfa ddata**

- i. Gallai hyn gynnwys naill ai pobl sy'n gweithredu ar ran y cyflawnwr neu ffrindiau/aelodau o'r teulu a allai fod yn pryderu am y goroeswr ond sy'n peryglu'r goroeswr a'u hunain drwy ganfod bod goroeswr mewn lloches benodol.
- ii. Y perygl o ddefnyddio rhifau YG yn hytrach na chyfeiriadau neu rifau ffôn yw bod rhifau YG yn ddynodwyr gydol oes a gallent alluogi cyflawnwyr i dracio goroeswyr o gwmpas y wlad os ydynt yn symud o loches i loches neu i breswylfa barhaol.
- iii. Mae goroeswyr y gallai eu cyflawnwyr weld cronfa ddata gyda'u gwybodaeth arno yn debygol iawn o fod yn ymwybodol o'r peryglon posibl y gallai cyrchu'r gronfa ddata eu peri, o ran datgelu eu gwybodaeth a chyfaddawdu eu diogelwch. Gallai'r ymwybyddiaeth hon weithredu fel rhwystr i oroeswyr rhag manteisio byth ar wasanaethau achub bywyd fel llochesi, gan nad ydynt am beryglu eu diogelwch ei hun a'u plant.

**2. Mae'n annhebygol y bydd gan oroeswyr eu rhifau YG gyda nhw wrth fynd at y gwasanaethau, os nad ydynt ar eu cof, gan eu bod yn gadael eu cartrefi ar frys**

- i. Mae goroeswyr yn tueddu i aros mewn llochesi am gyfnod byr iawn felly'r tebygolrwydd o allu ychwanegu rhifau YG yn ddiweddarach. Byddai angen cael system ar waith i gofnodi'r achosion hyn.

**3. Mae rhai goroeswyr gan gynnwys menywod BME a phobl ifanc yn llai tebygol o fod â rhifau YG**



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

- i. Yn sicr ni fydd rhai pobl ifanc yn gallu rhoi'r wybodaeth hon, felly bydd angen cael dewis amgen i'r rheini nad oes ganddynt rifau YG.
- ii. Efallai na fydd pobl ifanc sy'n cyrchu lloches o gwmpas eu pen blwydd yn 16 wedi derbyn eu rhifau YG erbyn iddynt fynd i'r lloches. Er y gellid dadlau bod modd ychwanegu hyn yn ddiweddarach, rhaid cael o leiaf trefniant dros dro. Os sefydlir darpariaeth ar gyfer y senario hon, mae cyfle wedyn i beidio â defnyddio rhif YG ar gyfer pob cleient VAWDASV.
- iii. Mae hefyd yn bosibl y gallai rhai cleientiaid orfod newid rhifau YG oherwydd newid eu hunaniaeth o ganlyniad i'r trais a'r cam-drin sydd wedi eu harwain at y gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl. Yn y senario hon byddai'n rhaid cael trefniant gan y byddai'r hen rif YG yn cael ei ddirymu.

#### 4. Gwiriadau DBS i'r rheini sy'n defnyddio'r gronfa ddata

- i. Er y bydd pawb sy'n gallu cyrchu'r gronfa ddata wedi cael gwiriad DBS, mae tystiolaeth glir yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol byth yn cael eu canfod yn euog ac mae nifer enfawr nad ydynt yn cael eu hysbysu i'r heddlu felly dim ond cyfran fach iawn o gyflawnwyr y gall gwiriadau DBS eu dangos. Hyd yn oed ar ôl sicrhau euogfarn, byddai'n rhaid cynnal y gwiriad DBS ar ôl hynny os yw am fod yn effeithiol, nad yw'n broses ddigon cadarn i ddiogelu goroeswyr rhag peryglon y cyflawnwyr yn cyrchu eu data.

Mae staff llinell flaen yn aelod-wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru yn gwrthwynebu'n gryf y defnydd o rifau YG i gefnogi goroeswyr sy'n cyrchu cyllid Cefnogi Pobl. Dywedodd un aelod:

**“Rwyf i'n pryderu y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at ddibenion ar wahân i dracio gwasanaethau. Mae potensial y bydd awdurdodau yn edrych ar gapio costau gwasanaeth yn y dyfodol ac anfanteisio ein cleientiaid (fel rydym ni wedi gweld eisoes gyda'r cymal trais arfaethedig) drwy ei gysylltu â'r system fudd-daliadau. Mae ein cleientiaid eisoes dan anfantais ac yn dioddef gwahaniaethu drwy'r system Cyfiawnder Troseddol, y system Fudd-daliadau i enwi ond ychydig ac mae hyn yn ymddangos yn ychwanegiad diangen sy'n peri mwy o risg a chyfle i gam-fanteisio yn hytrach na buddio.”**

#### **Argymhelliad:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cydnabod y byddai mabwysiadu rhifau YG fel cyfeirnodau unigryw ar gyfer Cefnogi Pobl yn fanteisiol yn y sector



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a trais yn erbyn merched yn Nghymru



tai ehangach, gan y bydd yn dod â dyfnder o ddata nad yw wedi bod ar gael cyn hyn ynghylch y ffordd y caiff cleientiaid eu cefnogi gan y gronfa drwy gydol eu hamser yn cyrchu gwahanol ddarpariaethau Cefnogi Pobl. Er ein bod yn cydnabod gwerth y data hwn yn gyffredinol, ni allwn weld bod y data yng nghyswllt gwasanaethau trais yn erbyn menywod yn fwy pwysig na chadw'r menywod a'u plant yn ddiogel. Mae'r system gyfredol o ddefnyddio 3 llythyren gyntaf cyfenw'r cleient, dyddiad geni a nodi G neu B yn broblematic gan fod modd i unrhyw un a all gyrchu'r gronfa ddata ddod o hyd i gofnod drwy ddefnyddio manylion (fel dyddiad geni) sydd ar gael yn rhwydd hyd yn oed ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol fel Facebook. Mae rhifau Yswiriant Gwladol hefyd yn wybyddus i bartneriaid agos, yn enwedig os ydynt yn rhannu preswylfa, felly byddem yn argymhell er mwyn diogelu menywod a merched sy'n cyrchu gwasanaethau trais yn erbyn menywod y dylid **defnyddio system YG ffug**, a grëir drwy ddefnyddio cronfa ddata'r darparwyr, a fyddai hefyd yn helpu'r darparwyr i nodi hunaniaeth eu cleient.

Mae'r wybodaeth hon a gynhrychir ar hap yn ei gwneud yn amhosibl i rywun sydd â mynediad at y gronfa ddata ganfod unigolyn maent yn ei adnabod ar y system. Ar gyfer sicrhau diogelwch ychwanegol, byddem yn cynghori nad oes unrhyw ddynodwyr personol o fewn y system YG ffug hon, h.y. dim cyfeiriadau at ddyddiad geni. Mae defnyddio rhifau a gynhrychir ar hap yn fwy diogel na rhifau YG ffug sy'n dilyn fformiwla ragnodedig. Er ein bod yn cydnabod y posibilrwydd y gallai rhai cleientiaid gael eu cyfrif ddwywaith os ydynt yn mynd ymlaen i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol nad ydynt yn VAWG, credwn fod hyn yn bosibilrwydd mewn nifer fach o achosion yn unig, ac er diogelwch credwn ei fod yn llawer gwell. Byddai hyn yn golygu bod angen cafeat i gydnabod y posibilrwydd hwn er mwyn diogelu cadernid y data.

Gweledigaeth y canllawiau yw bod gan bawb "gartref diogel ble gallant ffynnu". Mae llochesi menywod yn caniatáu i oroeswyr a'u plant ddechrau eu taith at gyflawni hyn. Drwy wneud llochesi yn llai diogel o bosibl, mae menywod sy'n cyrchu'r darpariaethau lloches hyn yn cael eu peryglu.

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, "deallir y bydd angen gofyn i bobl a oes modd defnyddio eu manylion personol, fel y Rhif Yswiriant Gwladol." Mae Cymorth i Ferched Cymru a'n haelodau'n pryderu er bod hyn yn awgrymu bod dewis gan oroeswr i ddarparu'r manylion hyn ai peidio, nid oes arwydd a yw darparwyr Cefnogi Pobl yn dal i allu darparu'r gwasanaeth os yw menywod yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth hon.

Mae'r pwynt canlynol yn y ddogfen ymgynghori hefyd yn peri gofid:

*"Mae bellach yn rhan orfodol o gontractau awdurodau lleol eu bod yn sicrhau bod ymwadiad priodol yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr i*



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chelnoogaeth cyffwrddol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a trais yn erbyn merched yn Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

*sicrhau bod pobl yn ymwybodol y gellid defnyddio eu gwybodaeth, fel arfer yn ddiennw, at ddibenion ymchwil a dadansoddi data yn ogystal â helpu i ffurfio a gwella gwasanaethau” (tud 57).*

Ni ellir gorbwysleisio ei bod yn hynod amhriodol i unrhyw ddata gan wasanaethau VAWDASV nad yw'n ddiennw gael ei ddefnyddio.

## Cydraddoldebau

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod angen defnydd cynyddol o wybodaeth cydraddoldebau i sicrhau cydraddoldeb cyfle a helpu i siapio cyfeiriad y dyfodol (Paragraff 16 – 18)?

### Cytuno'n Gryf

**Cytuno**

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Anghytuno**

**Anghytuno'n gryf**

**Rhowch reswm am eich ateb.**

Mae gwybodaeth cydraddoldeb yn hanfodol at ddibenion monitro ond am resymau diogelwch a diogelu data, mae angen iddi fod yn ddiennw a heb unrhyw gyswllt â manylion cleientiaid na'i storio gyda nhw. Bydd yr wybodaeth yn helpu i hysbysu'r bobl sy'n casglu'r data ynghylch pa grwpiau o bobl sy'n cyrchu cymorth a pha rai sydd ddim, er mwyn gallu nodi tueddiadau. Bydd yr wybodaeth hon yn werthfawr iawn ac yn helpu i siapio cymorth yn y dyfodol sy'n cynnwys pobl o bob grŵp, ac yn benodol grwpiau sydd cyn hyn heb fod â chynrychiolaeth ddigonol mewn grwpiau cleientiaid.

## Casglu tair lefel o ddata

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno ei bod yn dal i fod yn briodol casglu anghenion sylfaenol, eilaidd a thrydyddol (Paragraff 19)?

### Cytuno'n Gryf

**Cytuno**

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Anghytuno**

**Anghytuno'n gryf**

**Rhowch reswm am eich ateb.**



**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnoaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion goroeswyr sy'n wynebu anfanteision niferus a gwahaniaethu (a labelir fel cleientiaid ag anghenion 'cymhleth' croesadrannol), mae Cymorth i Ferched Cymru'n cytuno'n gryf ei bod yn briodol casglu manylion anghenion sylfaenol, eilaidd a thrydyddol gan fod hyn yn cynnig dealltwriaeth lawnach o brofiadau unigol cleientiaid a sut mae gwasanaethau amrywiol yn gallu ac yn gorfod ymateb yn briodol i anghenion penodol pob defnyddiwr gwasanaeth unigol. Bydd hefyd yn dystiolaeth nad yw dull seilo o geisio ymdrin ag angen sylfaenol ar wahân i angen eilaidd neu drydyddol yn ddefnyddiol ac yn gwneud cam â'r cleient. Yn yr un modd dylai fod yn ofyniad i fodloni anghenion pob cleient na chaiff ei ddiwallu.

Wrth labelu angen unrhyw gleient yn 'drais domestig' rhaid adlewyrchu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ac felly dylid ei ddiweddarau i gategori 'trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol'. Dylai fod yn gwbl ddealedig yn yr asesiad o 'anghenion' bod hyn yn cyfeirio at bob math o drais rhywiol, trais domestig, stelcio ac aflonyddu, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd', y fasnach mewn pobl, cam-fanteisio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, a cham-drin menywod a merched ar-lein.

**Gwasanaethau tymor hir a thymor byr**

**7. I ba raddau ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol dechrau casglu tystiolaeth am bobl sy'n derbyn gwasanaethau tymor byr iawn sy'n llai nag un mis (Paragraff 21)?**

**Cytuno'n Gryf**

- Cytuno**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- Anghytuno**
- Anghytuno'n gryf**

Fel y nodwyd uchod mae rhai menywod sy'n cyrchu lloches yn aml yn aros dros nos yn unig, neu am rai dyddiau neu wythnos. Mae felly'n bwysig i wasanaethau tymor byr gofnodi data o'r pwynt mynediad er mwyn mesur angen ac adlewyrchu effaith tymor byr. Er bod angen adrodd data canlyniadau ac effaith, rhaid i hyn fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r darpariaethau ac i'r grŵp cleientiaid.

**7a Os felly ydych chi'n cytuno bod y cwestiwn a osodir yn gywir? Faint o bobl a welwyd 'ar alw', am gyfnod o lai na mis, a lle na chofnodwyd unrhyw ganlyniadau?**

**Ydym**  **X**



**Live Fear Free Helpline**  
 Llinell Gymorth Byw Heb Ofn  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
 Darparu gwybodaeth a chafnogwedd cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yn Nghymru

**0808 80 10 800**



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

<b>Nac ydym</b>	<input type="checkbox"/>
-----------------	--------------------------

**Rhowch reswm am eich ateb.**

**8. Ydy'r mesurau canlyniadau arfaethedig yn briodol i bobl mewn llety â chymorth tymor hir (Paragraff 22)?**

<b>Ydynt</b>	<input type="checkbox"/>
<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>

**Rhowch reswm am eich ateb. Os ydych chi'n teimlo nad yw'r mesurau canlyniadau hyn yn briodol, amlinellwch pam a beth a allai fod yn gynnig amgen**

n/a

**9. Beth sy'n ganlyniad addas ar gyfer gwasanethau tymor hir, ai "*mae'r cymorth rwyf i'n ei dderbyn yn fy helpu i aros yn fy nghartref fy hun*" – y nifer a/neu'r % o bobl mewn llety â chymorth sy'n derbyn cymorth i'w helpu i aros yn eu cartref eu hunain?**

<b>Ie</b>	<input type="checkbox"/>
<b>Nage</b>	<input type="checkbox"/>

**Rhowch reswm am eich ateb.**

n/a

**10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar ganlyniadau i wasanaethau tymor hir?**

n/a

### **Cymorth sefydlog/symudol**

**11. A ddylid newid termau cymorth sefydlog a symudol i ymatebol ac ataliol yn eu tro (Paragraff 23 – 24)?**

<b>Dylid</b>	<input type="checkbox"/>
<b>Na ddylid</b>	<input checked="" type="checkbox"/>





**Live Fear Free Helpline**  
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales  
**0808 80 10 800**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
 Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a ffurfi yn erbyn merched yng Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
 Putting Women & Children First

**Rhowch reswm am eich ateb.**

Mae aelod-wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru yn ystyried bod y termau'n hunanesboniadol. Caiff y termau 'sefydlog' a 'chymorth symudol' eu deall yn y sector VAWDASV felly mae'n cynnig cysondeb. Pe bai'r termau'n newid byddai angen esboniad pellach o'r hyn mae'r termau'n cyfeirio ato. Gellir defnyddio cymorth ataliol i gwmpasu ystod ehangach o gymorth yn y sector VAWDASV gan gynnwys darpariaeth lloches 'sefydlog' oherwydd ei fod yn atal cam-drin pellach a gall y cymorth a roddir atal nifer o ganlyniadau negyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod pwyslais ar atal ar draws agendâu deddfwriaethol gan gynnwys VAWDASV. Dylid cynnwys dulliau ataliol mewn cymorth sefydlog a symudol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran y ffocws ar ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sydd â cham-drin domestig yn ffactor allweddol. Os ydym ni am lwyddo i liniaru effeithiau profiadau niweidiol mewn plentyndod bydd angen integreiddio dulliau ataliol niferus ar draws cymorth sefydlog a symudol a pheidio â'i wahanu i ffwrdd.

**Offeryn Casglu Data**

**12. Ydych chi'n teimlo y byddai o fudd cael cronfa ddata Cymru gyfan (Paragraff 25 - 27)?**

<b>Ydym</b>	<b>X</b>
<b>Nac ydym</b>	

**Rhowch reswm am eich ateb.**

Fel y corff ymbarél VAWDASV yng Nghymru, mae Cymorth i Ferched Cymru ar hyn o bryd yn datblygu ein cronfa ddata Cymru gyfan gyda'n haelod-wasanaethau i gasglu data gwasanaethau VAWDASV cenedlaethol a dangosyddion cenedlaethol. Rydym ni yn trafod gyda Llywodraeth Cymru y broses i ddiweddarau ein system casglu data cenedlaethol i adlewyrchu'r fframwaith canlyniadau VAWDASV newydd.

Byddai unrhyw gronfa ddata genedlaethol i'r Grant yn gorfod cyd-fynd ag unrhyw systemau cyfochrog ar gyfer casglu canlyniadau a dangosyddion VAWDASV ar draws gwasanaethau arbenigol y trydydd sector, a gyda fframweithiau comisiynu VAWDASV, y byddai darparwyr niferus y tu hwnt i gomisiynu SP yn cyfrannu atynt. Er mwyn osgoi dyblygu, byddai angen sgwrs bellach i sicrhau bod y ddwy system yn ategu ei gilydd ac yn ychwanegu gwerth i'w gilydd.



Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogiaeth  
cyfrinachol ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched  
yn Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i gasglu data cenedlaethol ar gyfer VAWDASV fel y mae ar hyn o bryd ac yn ceisio cyllid i awtomeiddio'r broses os yw'n bosibl. Ni fyddai gennym ddiddordeb mewn cyllido cost flynyddol y gronfa ddata Cefnogi Pobl gyffredinol. Byddwn yn datblygu'r fethodoleg gyda gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yn unol â chanlyniadau'r Fframwaith VAWDASV Cenedlaethol. Byddem yn gobeithio'n fawr y byddai'r Tîm Cefnogi Pobl yn rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith hwn.

Byddem yn argymhell bod unrhyw offeryn casglu data yn gorfod cynnwys data dienw, oherwydd sensitifrwydd dal data personol a allai adnabod goroeswyr VAWDASV, a'r risg i fywyd y gallai hyn ei beri pe bai cyflawnwyr yn gallu cyrchu neu ail-ffurfweddu hwn yn ddata y gellid ei adnabod.

**12a. Os felly, ydy eich sefydliad yn barod i wneud newidiadau TG angenrheidiol i alluogi i hynny ddigwydd? Ydy eich sefydliad yn barod i gyllido cost flynyddol cynnal y gronfa ddata honno?**

Ydym	<input type="checkbox"/>
Nac ydym	<input checked="" type="checkbox"/>

**13. Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y gallai diwygio'r canllawiau ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio diwygiad o'r fath neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV eisoes yn cael eu darparu mewn sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n awgrymu y dylid gwneud y defnydd mwyaf o'r Gymraeg lle bo'n bosibl. Dylid cynnal gwaith gyda goroeswyr yn Gymraeg a Saesneg lle bo'n bosibl, ac wrth gomisiynu gwasanaethau dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n Gymraeg lle ceir tystiolaeth o'r angen am hyn.

Rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill i fenywod sydd â'r Saesneg neu'r Gymraeg yn ail iaith, yn enwedig menywod sydd newydd fewnfudo.



Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chafnogwedd  
cyfrinachol ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched  
yn Nghymru



#### 14. Oes unrhyw beth arall am yr ymgynghoriad hwn yr hoffech gynnig sylwadau arno?

n/a

#### Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**Eich enw:** Hilary Watson

**Sefydliad:** Cymorth i Ferched Cymru

**Ebost:** hilarywatson@welshwomensaid.org.uk

**Rhif ffôn:** 029 20451 551

**Eich cyfeiriad:** Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE.